

**Cofnodion Bwrdd y Gorfforaeth
a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 11 Mai 2017 am 5.00pm ym Mhlas Sgeti, Sgeti**

Yn bresennol:	Mr Colin Cornelius Dr David Ashelby Mr John Britton Mr Andrew Donald Mr Meirion Howells, Mr Mark Jones Mr Kieron Rees Ms Fiona Rees Mr Ray Singh Mr Gary Williams Mrs Susan Williams	Cadeirydd Pennaeth
Yn bresennol hefyd:	Mr Mike Glover Mr Paul Harris Mrs Kay Morgan Mrs Cath Jenkins	Pennaeth Cyllid Is-bennaeth (Gwasanaethau Corfforaethol) Is-bennaeth (Gwasanaethau Academaidd) Rheolwr Partneriaethau a Rhaglenni Cyflogadwyedd
Cofnodydd:	Mrs Sharon Barron	Clerc i'r Gorfforaeth

35 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Mr Tim Clark, Mr Mike Day, Mrs Carol Green, Y Cyng. Jennifer Raynor, Y Cyng. Christine Richards, Mr Ceri Low, Mrs Chantal Patel.

36 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017 eu **cymeradwyo** fel cofnod cywir.

37 Materion sy'n Codi o'r Cofnodion

Cangen Coleg UCM (Cofnod 30)

Dywedodd y Pennaeth ei fod yn aros am ymateb gan UCM ynghylch symud ymlaen â'r gwaith o sefydlu cangen UCM yn y Coleg.

38 Adroddiad y Pennaeth

Roedd y Pennaeth wedi cyflwyno'i adroddiad.

Roedd y Bwrdd wedi nodi'r diweddaraf am y sector gan gynnwys nifer o ymholiadau ac ymgynghoriadau parhaus, ac effaith Safonau'r Gymraeg ar y Coleg. Mewn perthynas â'r rhain, roedd y Coleg wedi nodi bod trafodaethau wedi cael eu cynnal â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i nodi safonau oedd yn rhesymol ac ymarferol a rhai safonau nad oeddent yn rhesymol nac ymarferol. Roedd Aelodau wedi gwneud sylwadau ar y sefyllfa bresennol gan nodi nad oes derbynyddion ar y safle sy'n siarad Cymraeg - ystyriwyd bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol wrth recriwtio ar gyfer y swydd hon yn y dyfodol a bod staff yn cael cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg. Roedd y Pennaeth wedi sicrhau Aelodau bod galwyr sydd am barhau drwy gyfrwng y Gymraeg

yn cael eu hatgyfeirio i aelodau eraill o staff. Dywedodd hefyd fod rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hystyried.

Nododd y Bwrdd y cyhoeddiad diweddar bod Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn ymgynghori ynghylch y posibilrwydd o uno, a dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar raddfa fach.

Roedd diweddariad y Pennaeth ynghylch datblygiadau yn Abertawe wedi cyfeirio at y cynnydd disgwyledig o 14% yn niferoedd y dysgwyr ôl-16 o 2017/18 i 2026/27; crynodeb o'r canlyniadau yn y 'Diweddariad Ôl-16' drafft a baratowyd gan Peter Harrison (cyn Bennaeth Ysgol Gyfun Gŵyr) i Ddinas a Sir Abertawe; a'r diweddarafr ar gynnydd gyda thrafodaethau ag Ysgol Gyfun Treforys, ac nawr Ysgol Esgob Fychan ynghylch darpariaeth ar y cyd i ddisgyblion 6ed dosbarth o'r ddwy ysgol.

Roedd y Bwrdd wedi nodi nifer o faterion mewn perthynas â Dysgu Seiliedig ar Waith gan gynnwys y canlynol: bydd yr ymarfer tendro ar gyfer y rownd newydd o gontractau dysgu seiliedig ar waith (WBL5) yn cael ei ohirio am flwyddyn o leiaf; Coleg wedi derbyn cyllid ychwanegol ac mae cyfleoedd ar gyfer rhagor o gyllid ychwanegol; ac mae'r Coleg wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno cais am gynnydd pellach o £3m fyddai'n arwain at gynnydd posibl yng ngwerth y contract dysgu seiliedig ar waith o £1.7m ym mis Ebrill 2016 (cyn contract trosglwyddo Dinas a Sir Abertawe) i dros £7m yn 2017-18.

Roedd y Pennaeth wedi cyfeirio at gynlluniau i gael rhaglenni cyflogadwyedd newydd fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn fwy manwl gan Cath Jenkins, Rheolwr Partneriaethau a Rhaglenni Cyflogadwyedd. (Eitem 39 isod)

Roedd y Pennaeth wedi rhoi'r diweddarafr i'r Bwrdd am sawl eitem gan gynnwys: canlyniad gohebu ag AdAS mewn perthynas â chais y Coleg i gynnig 3 rhaglen adeiladu amser llawn o fis Medi 2017; ymddeoliad Cyfarwyddwr Sgiliau a Datblygu Busnes y Coleg; bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi cwblhau ail-arolygu'r Coleg ac wedi pasio pob un o'r 4 maen prawf; llwyddiant myfyriwr yng Nghystadleuaeth WorldSkills; cyfathrebu â staff; a digwyddiadau sy'n dod. O ran penodi corff adolygu gan y sector AB, dywedodd y Pennaeth fod hyn yn benderfyniad i'w wneud gan y sefydliadau unigol (gweler Cofnod 19 Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd 28 Chwefror 2017).

Roedd y Pennaeth wedi crybwyll bod problem wedi codi gyda gormod o adnoddau staff ym maes cwricwlwm trin gwallt. Cynigiwyd diswyddo gwirfoddol i staff yn y maes ac roedd y Coleg yn disgwyl nifer ddigonol o ymgeiswyr.

Roedd y Bwrdd wedi ystyried y datblygiadau ar faterion ystadau gan gynnwys: cwblhau'r ffordd gyswllt o gampws Tycoch i Hill House a'r cynlluniau arfaethedig i reoli traffig o amgylch campysau Tycoch a Hill House i sicrhau llwybr diogel o amgylch y safle. Roedd aelodau wedi awgrymu defnyddio tir (a elwir yn eiddo *Coastal*, gweler Cofnod 8.1 *et al* Bwrdd y Gorfforaeth 27 Mehefin 2013) ar gyfer maes parcio. Roedden nhw wedi nodi datblygiadau'r gwaith adeiladu newydd a'r gwaith ailwampio ar ôl y tân yn Nhycoch; a chynlluniau terfynol ar gyfer y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yn adeilad Ffordd y Brenin.

Roedd yr Is-bennaeth (Gwasanaethau Corfforaethol) wedi adrodd ar yr amserlenni mewn perthynas â'r estyniad arfaethedig i'r ffreutur ar gampws Gorseinon. Roedd

wedi adrodd bod cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno a bod disgwyl penderfyniad yng nghanol mis Mehefin, a bod dogfennau tendro wedi cael eu paratoi.

Roedd Aelodau wedi trafod y mater ynghylch y ffrâm ddur ar gyfer y datblygiad ac y bydd angen cyfnod cychwynnol o 8 i 10 wythnos i'w dylunio a'i ffabrigo ac, yn ogystal ag aros am ganlyniad y cais cynllunio, byddai hyn yn golygu na fyddai'r gwaith datblygu yn cychwyn tan ddechrau tymor yr hydref, pan fydd y myfyrwyr yn ôl ar y safle. Roedd aelodau wedi trafod risgiau'r oedi a'r risgiau i brofiad y myfyriwr oherwydd hyn, a chaffael ffrâm ddur cyn cael caniatâd cynllunio. Awgrymwyd y byddai trafod y cais cynllunio â'r swyddogion cynllunio yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar y posibilrwydd o'r caniatâd yn cael ei wrthod a/neu ei ohirio.

Cafodd ei gynnig, ei gefnogi a'i **gytuno** bod cymorth yn cael ei roi i reolwyr y Coleg i gaffael y fframwaith dur (am amcanbris o ryw £80,000) cyn cael caniatâd cynllunio, gyda'r penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i reolwyr y Coleg.

39 Cynigion Cyflogadwyedd

Roedd Mrs Cath Jenkins, Rheolwr Partneriaethau a Rhaglenni Cyflogadwyedd wedi cyflwyno adroddiad ar y cyfleoedd a'r cynigion y gall y Coleg fanteisio arnynt er mwyn ailgydio yn y ddarpariaeth gyflogadwyedd.

Roedd yr Aelodau wedi nodi'r strategaeth a'r cyd-destun arfaethedig ar gyfer ailgydio yn y ddarpariaeth gyflogadwyedd oedd yn ystyried, ymhlith pethau eraill, y newidiadau yn y farchnad lafur a modelau canlyniadau ar gyfer contractau allweddol y llywodraeth, y farchnad hynod gystadleuol i'w chyflwyno i rai cohortau a'r angen i ddatblygu dulliau partneriaeth. Yn ogystal, nodwyd cyfleoedd yn y dyfodol ac angen a galw presennol. Nododd yr Aelodau gynigion ar gyfer capasiti adeiladu gan ddefnyddio ymagwedd fesul cam, seiliedig ar risg mewn ardaloedd 'risg isel' gan ddefnyddio grantiau, targedu'r rhai sy'n nes at y farchnad lafur mewn ardaloedd lle nid oes llawer o gystadleuaeth a defnyddio ymagwedd arbrol. Roedd Mrs Jenkins wedi amlinellu sut y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno, a ffynhonnell y cyllid, yn enwedig cyllid yr UE, ar gyfer pob un o'r pedwar prosiect arfaethedig.

Nododd yr Aelodau y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno yn adeilad newydd y Coleg yn Ffordd y Brenin gyda thîm o 21 o staff addysgu newydd ar y rhaglen, pum aelod arall o staff yn cydlynu a gweinyddu cyllid UE, a thri aelod o staff yn darparu cymorth gweinyddol a chyfleusterau ar safle Ffordd y Brenin. Er mwyn dechrau'r rhaglen ym mis Medi 2017, i ddiwallu disgwyliadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar berfformiad cynnar a gwariant, byddai'r gwaith o recriwtio staff yn dechrau pan fydd y Coleg yn cael ei hysbysu bod cyllid wedi'i gymeradwyo.

Cafodd Aelodau eu hysbysu mai cyfanswm y costau dangosol oedd £4.8m ac roedd £3.8m o'r cyfanswm hwn yn gostau ychwanegol a fyddai'n cael eu gwrthbwysu gan gyllid yr EU gwerth £3.7m, a gallai'r prosiectau gael eu haddasu pe bai'r ceisiadau am gyllid yn aflwyddiannus.

Roedd Aelodau wedi gwneud sylwadau, trafod a chodi cwestiynau am y canlynol: marchnata'r prosiect; yr ansicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol o ganlyniad i 'Brexit'; amserlenni ar gyfer cael mynediad i gyllid UE; targedu grwpiau megis menywod dduon a lleifrifoedd ethnig i gael gwaith; heriau o ran paratoi adeilad Ffordd y Brenin i'w ddefnyddio ar gyfer y prosiect hwn; a'r cyfnod y byddai cyfranogwyr yn cael eu

cefnogi i aros mewn gwaith. Cafodd Aelodau eu sicrhau y byddai cyllid UE ar gael tan 2020 ac y byddai cynlluniau ar waith ymhell cyn y dyddiad hwn i sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol; byddai cwrpas i weithio gyda grwpiau eraill yn y dyfodol; byddai trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith, megis gweithio allan o swyddfeydd partneriaid neu ddefnyddio swyddfeydd eraill, pe na fyddai safle Ffordd y Brenin ar gael ym mis Medi; ac roedd y Coleg wedi cydnabod yr angen i gyflogi'r staff iawn ar gyfer y grwpiau penodol hyn o ddysgwyr, a'u bod yn cael cymorth mewn lleoliad addas.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi** a **chymradwyo'r** cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad gan gynnwys y strategaeth gyflogadwyedd, cyflwyno'r pedwar cais am gyllid UE, a'r gwaith recriwtio fesul cam i rolau newydd yn dechrau erbyn diwedd Mai 2017.

40 Adroddiad Pwyllgor

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi'r** trafodaethau a'r penderefyndiadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 4 Mai 2017.

Yn dilyn eu hadolygiadau, cafodd Bwrdd y Gorfforaeth ei sicrhau bod yr archwilwyr mewnol ac allanol bellach yn fodlon ar ymatebion rheolwyr a'r systemau sydd ar waith yn dilyn yr archwiliadau, ac roeddent yn hapus gyda 'chyfeiriad teithio' Track Training.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymradwyo** Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2015-16.

41 Unrhyw Fusnes Arall

Roedd yr Aelodau wedi trafod y mater o bresenoldeb mewn cyfarfodydd. Awgrymwyd y gallai presenoldeb gael ei hwyluso'n electronig ar gais ac y dylai hyn fod yn glir yn y gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

42 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 29 Mehefin 2017.

Llofnod.....

Dyddiad.....